

## Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Lyn Jones (Llanfair) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd, a Beryl Jones (Nantglyn) a Ceinlys M. Jones (Llansannan) sydd yn yr Inffirmari. Llawenydd yw deall fod Amy Evans (Llanfair) wedi cael dod adre o'r ysbyty yn dilyn cyfnod go hir yno ond diolchwn am y gofal arbennig a gafodd. Cofiw'n am eraill sydd heb fod yn dda y dyddiau hyn hefyd. Gweddiwn y bydd pob un o'r cleifion yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal, ac yn eu hiacháu.
- Yn yr un modd, cyflwynwn i ofal yr Arglwydd ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal - Mrs Myra Hughes (Maes Elwy); Mr R. J. Davies (Amber House); Mrs Morfydd Williams (Southern House); Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mrs Menna Owen (The Meadows); Mrs Mair Roberts (Yr Hen Ficerdy); a Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys).

## Gwaith Cwrs Ysgolion Sul Henaduriaeth Dyffryd Clwyd 2013

Erbyn hyn mae manylion gwaith cwrs yr Ysgolion Sul wedi dod i law. Bydd angen i'r cyweithiau fod yn barod **erbyn Ebrill 15fed**, a bydd gwasanaeth byr **nos Wener, Mai 10fed** yn Llansannan am 6.30 i gyflwyno'r tystysgrifau ynghyd â sgwrs gan Arawn Glyn, ac adloniant i ddilyn gan griw Coleg y Bala, a lluniaeth ysgafn i ddiweddu'r noson.

Y dasg a osodwyd i'r plant a'r ieuencid eleni yw cywaith unrhyw gyfrwng ar y thema **'Arwyr y Beibl'**. Gofynnir am gywaith gyda'r holl blant wedi cyfrannu ato mewn unrhyw gyfrwng, e.e. gwaith ymchwil, ysgrifennu stori, dramodig, poster, gweddi, sgwrs ar dâp, sribed cartwn, cyflwyniad PowerPoint. Bydd arddangosfa o'r gwaith yn cael ei greu ar gyfer yr Henaduriaeth.

Ar gyfer yr oedolion, gofynnir am gyflwyniad ar yr un thema - **'Arwyr y Beibl'**. Os yn cyflwyno traethawd, dylid cyfyngu i ddim mwy na 1,000 o eiriau, neu gellir cyflwyno gwaith llaw neu arddangosfa flodau. Os am gyflwyno arddangosfa flodau, gofynnir i chi ddod â'r gosodiad ar y noson wobrwyo yn unig a gadael i Alys Owen (816231), yr ysgrifennydd, wybod ymlaen llaw er mwyn cael rhoi eich enwau yn yr adroddiad.

Bydd mwy o fanylion gan Arolygwr eich Ysgol Sul. Hwyl i bawb ar y paratoi!

## I ddod

- **Penwythnos Ieuencid yng Ngholeg y Bala**, Chwefror 12fed-15fed. Pris gwreiddiol yn £75 y plentyn a £37.50 ar gyfer ail blentyn o'r un teulu, ond bydd gostyngiad o £20 i'r plentyn cyntaf o bob teulu a £10 i'r ail blentyn. Rhaid llenwi ffurflen ganiatâd ac anfon blaendal o £10 i'r Coleg **yn y dyddiau nesaf** i sicrhau lle.
- **Adnabod DAWN**: Sesiynau nesaf - Chwefror 26ain, Mawrth 12fed.
- Dyddiadau **Llanw 13** yw Ebrill 1af-5ed. Cewch fwy o fanylion ar y we.

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 3<sup>ydd</sup> Chwefror 2013

Darlleniad y Dydd

Mathew 11: 25-30

(BCND tud.13 / BCN: tud.12)

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Croeso cynnes iawn i bawb ohonoch i'n hoedfaon heddiw. Gweddiwn am gymorth yr Ysbryd Glân wrth i ni addoli, er mwyn i'n ffydd yng Nghrist ddyfnhau fel y gallwn gytuno â'r Salmydd pan ddywedodd yn Salm 56:4: 'Yn Nuw yr wyf yn ymddiried heb ofni; beth a all pobl ei wneud i mi?'

Tybed faint ohonoch fu'n effro'n ystod y nos dros yr wythnos aeth heibio oherwydd y gwynt a'r glaw? Mae arbenigwyr yn dweud yn gyson fod cwsg yn un o'r ffactorau hanfodol i sicrhau bywyd a chorff iach. Ac mae'n siŵr fod pawb ohonom wedi cael cyfnodau lle nad yw cwsg yn dod yn hawdd i'n rhan. Gallwn fod felly oherwydd poeni am bethau, plant yn deffro, defaid yn wyna, poenau neu salwch. Beth bynnag fo'r rheswm amdano mae diffyg cwsg yn gyflwr sy'n creu anawsterau mawr inni'n aml gan leihau ein hegni a'n brwdfrydedd, a gwneud popeth sydd angen ei wneud ychydig yn anoddach i'w gychwyn a'i gwblhau! Ar yr adegau hynny pan mae diffyg cwsg yn ein taro drymaf, rydym yn dyheu am gael ychydig o amser i orffwyso, gan mai dyna'r ffordd naturiol y mae'r corff yn dod yn ôl ato'i hun - y batris yn cael ei ail-jarjio fel petai.

Wrth gwrs, gall hyn fod yn broblem feddygol y mae angen cymorth doctor i ddelio â hi ond beth am ein cyflwr ni'n ysbrydol? Beth allwn ni ei wneud os yw pwysau'r byd ar ein hysgwyddau a theimlad diddiwedd o euogrwydd yn ein llethu? Wrth i ni edrych ar ein darlleniad heddiw, gwelwn fod Iesu wedi dod atom i gynnig lleddfu'r baich hwnnw sydd arnom. Daeth i'n byd er mwyn gwahodd pobl ato'i hun - ac nid pobl arbennig eu gallu neu ddeall, ond unrhyw rai oedd yn barod i gydnabod eu hangen a dod ato. Wrth bwyso'n llwyr arno Ef a dod yn eiddo iddo trwy ffydd y 'cymerwn ei iau arnom', ac wrth ddsygu ganddo a dod i'w adnabod yn well y caiff ein heneidiau'r gorffwys tragwyddol hwnnw sydd ddim i'w gael yn unlle arall.

Beth amdani felly, ydym ni wedi derbyn gwahoddiad Iesu i ddod ato a phrofi'r gorffwys sydd ganddo i'w gynnig? Ydym ni wedi cael rhyddhad o faich ceisio plesio eraill, ymdrechu i fod yn dda yn ein nerth ein hunain neu boeni'n ddiwedd am sefyllfaoedd? Mae gwahoddiad Iesu'n parhau'r un mor agored i ninnau heddiw ac yr oedd i'r gynulleidfa a wrandawai arno yn y cnawd. Gweddiwn y bydd mwy a mwy ohonom yn profi'r gorffwys tra hwnnw'n realiti bendigedig sy'n cynyddu yn ein bywydau i'n cynnal ym mhob storm a ddaw.

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Andras Iago, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • Bydd cyfarfod i ddechrau trefnu **Pabell yr Eglwys yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych** dan ofal Cytun yng Nghapel y Dyffryn, Llandyrnog am 6.00. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r babell hon wedi bod yn un o'r rhai prysuraf ar Faes yr Eisteddfod gan gynnig croeso a hafan i filoedd dros yr wythnos. Croeso i unrhyw un sydd â diddordeb i'r cyfarfod.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Adnabod Addoli** yn Ffestri Llansannan am 8.00.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghewn Meiriadog am 10.30. Ni fydd Ysgol Sul yn Llanfair ond cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 2.00.
- Mercher Cymdeithas Undebol Llanfair am 7.30 yn y Neuadd Goffa pryd y ceir "Sleidiau ar Tseina" yng nghwmni Bleddyn a Maureen Hughes. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Andras Iago yn arwain oedfa i'r daith yn Neuadd Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol am 10.00 ac fe fydd Ywain a Fiona yn cyflwyno Lili i gael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir yr Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch R. W. Jones yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a bydd Oedfa Thema yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn y ddwy eglwys am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Iau Bydd y Gymdeithas yn cyfarfod yng Nghapel Llanefydd am 7.30 pryd y ceir noson yng nghwmni y Tocsidos Bler, a phaned a chacen i ddilyn.
- Sul nesaf Bydd Andras Iago yn arwain oedfa i'r daith yng Nghewn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:  
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau